**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Gorchymyn Cymelldaliadau Athrawon Ysgol (Cymru) 2023**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Adran Addysg, Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Gymraeg ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Gorchymyn Cymelldaliadau Athrawon Ysgol (Cymru) 2023. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Jeremy Miles AS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
27 Hydref 2023

## RHAN 1

### 1. Disgrifiad

1.1 Mae Gorchymyn Cymelldaliadau Athrawon Ysgol (Cymru) 2023 ("y Gorchymyn") yn darparu nad yw cyfandaliadau a delir i athrawon ysgol yng Nghymru o dan y Fwrsariaeth i Gadw Athrawon Cymraeg mewn Addysg yn cael eu trin fel tâl at ddiben adran 122(1) o Ddeddf Addysg 2002 ac felly nad ydynt yn ddarostyngedig i'r fframwaith tâl statudol ac nad ydynt yn bensiynadwy.

### 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1 Dim

### 3. Y cefndir deddfwriaethol

3.1 Mae gan Weinidogion Cymru y pŵer i bennu cyflog ac amodau athrawon yng Nghymru drwy Orchymyn o dan adrannau 122 i 124 a 126 i 127 o Ddeddf Addysg 2002 ("Deddf 2002"). Trosglwyddwyd y swyddogaethau hyn, o ran Cymru, i Weinidogion Cymru ar 30 Medi 2018 oddi wrth yr Ysgrifennydd Gwladol gan Orchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2018.

3.2 Mae adran 122(1) o Ddeddf 2002 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru i wneud darpariaeth ar gyfer tâl athrawon ysgol yng Nghymru ac amodau cyflogaeth eraill sy'n gysylltiedig â'u dyletswyddau proffesiynol a'u hamser gwaith.

3.3 Mae adran 123(4) o Ddeddf 2002 yn darparu y gellir gwneud Gorchymyn er mwyn darparu—
(a) bod taliad neu hawl o fath penodedig i'w drin fel tâl at ddibenion adran 122(1) neu nad yw i'w drin fel tâl at ddibenion yr adran honno.

3.4 Gwneir y Gorchymyn hwn o dan y weithdrefn penderfyniad negyddol.

### 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1 Ym mis Mai 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddogfen o'r enw Cynllun y gweithlu Cymraeg mewn addysg a oedd yn nodi ystod o gamau gweithredu i'w cymryd gyda phartneriaid allweddol i gyflawni pedwar amcan allweddol:

- cynyddu nifer yr athrawon sy'n gallu addysgu'r Gymraeg fel pwnc ac addysgu pynciau eraill drwy gyfrwng y Gymraeg
- cynyddu nifer yr ymarferwyr sy'n gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg sy'n cefnogi dysgwyr
- datblygu sgiliau Cymraeg pob ymarferydd a'i arbenigedd i addysgu'r Gymraeg ac i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg

- meithrin gallu arweinwyr ysgolion cyfrwng Cymraeg a sicrhau bod gan bob arweinydd y sgiliau sydd eu hangen i gynllunio datblygiad y Gymraeg yn strategol o fewn diwylliant o ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu.

4.2 Un o'r camau gweithredu penodol yn y cynllun yw datblygu cynllun peilot i dalu bwrsariaeth cadw athrawon, i'w hannog i aros yn y proffesiwn.

4.3 Ym mis Ebrill 2023, cytunodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg i sefydlu cynllun peilot ar gyfer Bwrsariaeth i Gadw Athrawon Cymraeg mewn Addysg. Mae'r Fwrsariaeth o £5,000 ar gael i athrawon sydd wedi ennill Statws Athro Cymwysedig (SAC) o fis Awst 2020 ymlaen, ac sydd wedi cwblhau tair blynedd o addysgu mewn ysgol uwchradd neu ysgol ganol cyfrwng Cymraeg, neu drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgol uwchradd neu ysgol ganol ddwyieithog, neu sydd wedi addysgu Cymraeg fel pwnc mewn unrhyw ysgol uwchradd neu ysgol ganol a gynhelir yng Nghymru.

4.4 Mae'r Fwrsariaeth yn gynllun peilot, a fydd ar gael am y pum mlynedd nesaf hyd ddiwedd y cyfnod peilot yn 2028. Bydd bwrsariaethau terfynol y cyfnod peilot yn cael eu talu yn ystod hydref 2028.

4.5 Taliad untro yw'r fwrsariaeth cadw athrawon, sydd, i bob pwrpas, yn fonws i gydnabod aros yn y proffesiwn addysgu cyfrwng Cymraeg. Er mwyn talu'r fwrsariaeth cadw athrawon i unigolion cymwys, yn dilyn cais llwyddiannus, bydd Llywodraeth Cymru yn cysylltu ag awdurdodau lleol ac ysgolion i sicrhau y gellir talu'r fwrsariaeth ynghyd â'u cyflog ym mis Rhagfyr 2023.

4.6 Bydd Llywodraeth Cymru yn talu cyfraniadau treth ac yswiriant gwladol i sicrhau bod yr holl dderbynwyr yn cael y £5,000 llawn gyda'u cyflog.

4.7 Mae'r fwrsariaeth wedi'i heithrio rhag cael ei chynnwys fel enillion pensiynadwy. Mae hyn yn cydymffurfio â Rheoliadau Cynllun Pensiwn Athrawon 2014, gan mai bonws ydyw yn hytrach na thaliad a wneir mewn perthynas â dyletswyddau cytundebol.

4.8 Mae angen Gorchymyn o dan adran 123(4) o Ddeddf 2002 i'w gwneud yn glir nad yw cyfandaliadau a delir i athrawon ysgol yng Nghymru o dan y Fwrsariaeth i Gadw Athrawon Cymraeg mewn Addysg i'w trin fel tâl at ddiben adran 122(1) o Ddeddf 2002, ac felly nad ydynt yn ddarostyngedig i'r fframwaith tâl statudol ac nad ydynt yn bensiynadwy.

4.9 Mae'r Gorchymyn yn gymwys i bob athro ysgol (fel y diffinnir "school teacher" yn adran 122(3) i (6) o'r Ddeddf) yng Nghymru. Daw'r Gorchymyn i rym ar 17 Tachwedd 2023.

## RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

### 5. Yr opsiynau

5.1 Er mwyn ei gwneud yn glir nad yw cyfandaliadau a delir i athrawon ysgol yng Nghymru o dan y Fwrsariaeth i Gadw Athrawon Cymraeg mewn Addysg i'w trin fel tâl at ddiben adran 122(1) o Ddeddf 2002, ac felly nad ydynt yn ddarostyngedig i'r fframwaith tâl statudol ac nad ydynt yn bensiynadwy, nodwyd yr opsiynau canlynol:

Opsiwn 1: Gwneud dim

Opsiwn 2: Mabwysiadu dull deddfwriaethol drwy weithredu Gorchymyn o dan adran 123(4) o Ddeddf 2002

### 6. Costau a manteision

**Opsiwn 1 – Gwneud dim**

<u>Manteision</u>

6.1 Nid oes unrhyw fanteision i'r opsiwn hwn. Fodd bynnag, mae risgiau sylweddol o ran peidio â gwneud y Gorchymyn:

- gellid canfod bod y fwrsariaeth yn rhan o dâl athrawon gyda'r effaith -
  1) ei bod yn cael ei hystyried yn bensiynadwy, ac yn yr achos hwnnw bydd angen talu cyfraniadau pensiwn cyflogwr a chyflogai, nad ydynt wedi'u hariannu;
  2) y dylai fod wedi'i chynnwys yn y telerau cyflog ac amodau a wnaed mewn Gorchymyn o dan adran 122(1) o Ddeddf 2002 ac wedi'i chynnwys yn y broses ymgynghori statudol.

<u>Costau</u>

6.2 Nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn. Fodd bynnag, os na wneir y Gorchymyn a chanfyddir bod y fwrsariaeth yn bensiynadwy, yna bydd goblygiadau cost i'r cyflogwr a'r cyflogai fel ei gilydd, i dalu am y cyfraniadau pensiwn.

6.3 Mae cyflogwyr yn cyfrannu 23.68% o gyflog athro tuag at gost pensiynau athrawon. Mae athrawon yn cyfrannu rhwng 7.4% ac 11.7% tuag at eu pensiwn athrawon, yn seiliedig ar eu cyflog blynyddol.

6.4 Er mwyn sicrhau bod y fwrsariaeth lawn o £5,000 yn cael ei thalu i dderbynnydd y fwrsariaeth, bydd Llywodraeth Cymru yn talu cost cyfraniadau treth ac yswiriant gwladol (y cyflogwr a'r cyflogai) ac rydym yn rhagweld y bydd y gost gros wirioneddol yn dod i gyfanswm o oddeutu £8,500 y pen.

6.5 Amcangyfrifir felly y byddai cyfraniad pensiwn y cyflogwr ar y taliad bwrsariaeth gros o £8,500 yn dod i gyfanswm o oddeutu £2,012. Tua £731 fyddai cyfraniad y cyflogai, sy'n cyfateb i 8.6% (gan dybio bod yr athrawon yn cael eu talu ar fand cyflog M5 (£36,232)).

6.6 Er mwyn sicrhau bod yr unigolion yn cael y fwrsariaeth o £5,000 yn llawn, byddai angen ariannu £2,743 ychwanegol ar gyfer pob unigolyn cymwys. Rydym yn rhagweld y bydd tua 70 o unigolion yn cael y fwrsariaeth bob blwyddyn, felly byddai'r gost ychwanegol o ariannu'r cyfraniadau pensiwn yn dod i gyfanswm o oddeutu £192,000 y flwyddyn. Yn yr hinsawdd ariannol bresennol, byddai hyn yn creu pwysau heb ei ariannu ar y gyllideb sy'n ariannu'r fwrsariaeth.

**Opsiwn 2 - Mabwysiadu dull deddfwriaethol drwy weithredu Gorchymyn o dan adran 123(4) o Ddeddf 2002**

Manteision

6.7 Mantais gwneud Gorchymyn o dan adran 123(4) o Ddeddf 2002 yw y bydd yn ei gwneud yn glir nad yw'r fwrsariaeth i'w thrin fel rhan o dâl athrawon ac am y rheswm hwn nad yw'n ofynnol ei chynnwys yn y broses ymgynghori o dan adran 126 o Ddeddf 2002 nac yn y Gorchymyn Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) a wneir o dan adran 122.

6.8 Bydd gwneud Gorchymyn o dan adran 123(4) o Ddeddf 2002 hefyd yn ei gwneud yn berffaith glir nad yw'r fwrsariaeth yn bensiynadwy.

Costau

6.9 Nid oes unrhyw oblygiadau cost ychwanegol ynghlwm wrth wneud y Gorchymyn. Gall staff Llywodraeth Cymru ymgymryd â'r gwaith fel rhan o'u dyletswyddau arferol. Pan wneir y Gorchymyn, bydd yn glir bod y fwrsariaeth wedi'i heithrio o'r diffiniad o enillion pensiynadwy ac felly ni fyddai angen y £192,000 o gyllid ychwanegol bob blwyddyn, a nodwyd o dan Opsiwn 1, i ariannu'r cyfraniadau.

Crynodeb o'r opsiwn a ffefrir

6.10 I grynhoi, yr opsiwn a ddewiswyd yw Opsiwn 2.

6.11 Gwnaed y penderfyniad hwn drwy ystyried y manteision y gellir eu sicrhau fel y nodir uchod.

6.12 Nid yw'r newidiadau deddfwriaethol hyn yn effeithio ar fusnesau, elusennau na chyrff gwirfoddoli.

6.13 Nid oes unrhyw oblygiadau cost ychwanegol ynghlwm wrth y newidiadau deddfwriaethol.

## 7. Ymgynghori

7.1 Cafodd cam gweithredu i gyflwyno bwrsariaeth cadw athrawon ei gynnwys yng nghynllun y Gweithlu Cymraeg mewn Addysg, a ddatblygwyd mewn cydweithrediad agos â'r prif randdeiliaid, gan gynnwys undebau athrawon. Trafodwyd y cynllun peilot gyda grŵp bach o benaethiaid a chydag aelodau'r Grŵp Gweithredu Allanol, a sefydlwyd i fonitro gweithrediad Cynllun y Gweithlu Cymraeg mewn Addysg. Gan mai cynllun peilot yw hwn, nid oedd angen cyfnod ymgynghori ffurfiol. Efallai y bydd angen ymgynghoriad ffurfiol ar ddiwedd y cyfnod peilot, os cynigir cynnal y fwrsariaeth.

7.2 Ni chynhaliwyd ymgynghoriad mewn perthynas â gwneud y Gorchymyn gan mai mater gweithdrefnol ydyw, i sicrhau bod y polisi'n cael yr effaith gyfreithiol a fwriedir, i ddarparu eglurder i weinyddwyr y gyflogres a gweinyddwyr cynlluniau pensiwn, ac i liniaru'r risg y bydd angen cyfraniadau pensiwn heb eu hariannu.

## 8. Asesiad o'r Gystadleuaeth

8.1 Ddim yn berthnasol.

## 9. Adolygiad ar ôl gweithredu

9.1 Cytunwyd i dalu'r fwrsariaeth i unigolion cymwys am gyfnod peilot o bum mlynedd hyd 2028. Bydd y cynllun peilot yn cael ei werthuso i benderfynu a yw'r fwrsariaeth yn cyflawni ei hamcan o gadw athrawon uwchradd Cymraeg a chyfrwng Cymraeg yn y proffesiwn.

9.2 Bydd adolygiad o'r ddeddfwriaeth yn digwydd ochr yn ochr â gwerthusiad o'r cyfnod peilot.